Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1242 (Cy. 294)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (O.S. 2012/245 (Cy. 39)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio un o'r gofynion ynghylch selio pecynnau hadau. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r gofynion ynghylch samplu hadau at ddibenion gorfodi.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod darpariaeth newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i unrhyw berson gyflawni mesurau swyddogol. Mae rheoliadau 6 a 7 yn gwneud mân ddiwygiadau.

Nid oes asesiad effaith wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn cael unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus, neu na ragwelir y bydd yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y sectorau hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1242 (Cy. 294)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Rhagfyr 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Rhagfyr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *11 Ionawr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 16(1), (1A), (2), (3) a (4) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn ymwneud â hyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 11 Ionawr 2017.

---

(**1**) 1964 (p. 14). Diwygiwyd adran 16(1) a mewnosodwyd adran 16(1A) gan baragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68).

(**2**) *Gweler* adran 38(1) am ddiffiniad o "the Minister" ("*y Gweinidog*"). O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**2.** Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r darpariaethau a ganlyn.

**Rheoliad 16 (pecynnu a selio)**

**3.** Yn rheoliad 16, yn lle paragraff (3) rhodder—

> "(3) Rhaid i becyn gael ei selio gan samplwr hadau trwyddedig, neu o dan oruchwyliaeth samplwr hadau trwyddedig, gan ddefnyddio sêl swyddogol."

**Rheoliad 24 (samplu at ddibenion gorfodi)**

**4.** Yn rheoliad 24, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

> "(3) Rhaid dal gafael ar y ddwy ran o'r sampl a anfonir i orsaf brofi swyddogol am o leiaf ddwy flynedd."

**Trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol**

**5.** Ar ôl rheoliad 28 mewnosoder—

> **"Trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol**
>
> **28A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y cyfryw drefniadau gydag unrhyw berson ("A") y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben galluogi A i gyflawni mesurau swyddogol ar ran Gweinidogion Cymru.
>
> (2) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud unrhyw drefniant o dan y rheoliad hwn oni bai eu bod wedi eu bodloni bod y trefniant yn gwneud darpariaeth at ddiben atal unrhyw berson rhag—
>
> (a) cael unrhyw elw preifat o unrhyw fesurau swyddogol a gyflawnir o dan y trefniant; a
>
> (b) cyflawni unrhyw fesurau swyddogol o dan y trefniant ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol.
>
> (3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys mewn unrhyw drefniant y cyfryw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at y dibenion

(**1**) O.S. 2012/245 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/889 (Cy. 101) ac O.S. 2014/519 (Cy. 61).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2), gan gynnwys amodau—

(a) sy'n pennu—

(i) y mesurau swyddogol y mae'n rhaid i A eu cyflawni;

(ii) y rhywogaethau a'r cenedlaethau o hadau y caiff A gyflawni'r mesurau swyddogol mewn cysylltiad â hwy;

(iii) y dulliau i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;

(iv) y ffioedd y caiff A eu codi mewn perthynas â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;

(v) y cofnodion y mae'n rhaid i A eu cadw mewn cysylltiad â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;

(b) sy'n gwahardd A rhag—

(i) codi ffioedd mewn perthynas â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A o dan y trefniant ac eithrio i'r graddau nad yw'r ffioedd yn uwch na'r costau y mae A yn mynd iddynt wrth eu cyflawni;

(ii) cyflawni'r mesurau swyddogol ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol;

(c) sy'n gwahardd A rhag gwneud unrhyw drefniant pellach gydag unrhyw berson arall ("B") at unrhyw ddiben mewn cysylltiad â chyflawni'r mesurau swyddogol y mae A wedi gwneud trefniadau gyda Gweinidogion Cymru i'w cyflawni, oni bai—

(i) bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo holl amodau'r trefniant pellach a bod A wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw i wneud y trefniant pellach;

(ii) bod y trefniant pellach yn cynnwys amod sy'n gwahardd B rhag gwneud unrhyw drefniadau dilynol at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chyflawni'r mesurau swyddogol y mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud trefniant gydag A mewn cysylltiad â hwy;

(iii) bod y trefniant pellach yn cynnwys cydnabyddiaeth gan A y caiff Gweinidogion Cymru amrywio, ddirymu neu atal dros

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dro y trefniant pellach os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru nad yw B yn cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r trefniant pellach, neu bod B wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau hynny; a

(iv) bod y trefniant pellach yn cynnwys yr amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) o'r paragraff hwn ac at y dibenion hyn mae cyfeiriadau yn yr is-baragraffau hynny at A i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at B, ac mae cyfeiriadau at "y trefniant" i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y trefniant pellach.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chymeradwyo gwneud unrhyw drefniant pellach o dan y rheoliad hwn oni bai eu bod wedi eu bodloni na fydd B—

(a) yn cael unrhyw elw preifat o unrhyw fesurau swyddogol y mae B i gael ei awdurdodi i'w cyflawni o dan y trefniant pellach;

(b) yn cyflawni unrhyw fesurau swyddogol o dan y trefniant pellach ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig i A neu B (yn ôl y digwydd), amrywio, atal dros dro neu ddirymu unrhyw drefniant neu drefniant pellach, neu unrhyw amodau trefniant neu amodau trefniant pellach a wneir o dan y rheoliad hwn.

(6) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (5) bennu—

(a) mewn cysylltiad ag amrywiad neu ddirymiad, y dyddiad y mae'r amrywiad neu'r dirymiad yn cael effaith ohono;

(b) mewn cysylltiad ag atal dros dro, y cyfnod pryd y mae'r atal dros dro yn cael effaith.

(7) Pan fydd amrywiad, dirymiad neu atal dros dro yn cael effaith, caiff Gweinidogion Cymru, at unrhyw ddibenion mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, barhau i roi sylw i'r cyfryw fesurau swyddogol a gyflawnir o dan drefniant (neu drefniant pellach) a gafodd ei amrywio, ei ddirymu neu ei atal dros dro yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn fesurau swyddogol a gyflawnir yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(8) Yn y rheoliad hwn, mae "mesurau swyddogol" ("*official measures*") yn cynnwys archwiliadau swyddogol, treialon tyfu, profion ac asesiadau."

**Atodlen 2 (gofynion ardystio)**

**6.** Yn Atodlen 2, yn lle paragraff 29 (safonau gwirfoddol uwch ar gyfer hadau porthiant) rhodder—

"**29.** Caniateir marchnata'r canlynol fel hadau o safon wirfoddol uwch—

(a) troed y ceiliog, festulolium, rhygwellt hybrid, rhygwellt yr Eidal, peiswellt, rhygwellt parhaol, meillion coch, peiswellt coch, y godog, rhonwellt bach, rhonwellt, gweunwellt llyfn, peiswellt tal a meillion gwyn, pan fo unrhyw un neu ragor o'r rhain wedi eu dosbarthu'n hadau ardystiedig (CS);

(b) maglys rhuddlas, a ddosbarthwyd naill ai'n hadau ardystiedig o'r genhedlaeth gyntaf (CI) neu'n hadau ardystiedig o'r ail genhedlaeth (C2)."

**Atodlen 3 (labelu a gwerthiannau rhydd)**

**7.**—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 22 (hadau porthiant ac eithrio cymysgedd: gofynion labelu), yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

"(b) enw a chyfeiriad neu rif adnabod y person sy'n gosod y label;".

(3) Ym mharagraff 25 (hadau llysiau: labeli cyflenwr), yn lle is-baragraff (5)(b) rhodder—

"(b) enw a chyfeiriad neu rif adnabod y person sy'n gosod y label;".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
15 Rhagfyr 2016